

## **Mae Wise Cymru yn chwilio am Gadeirydd newydd i'w bwyllgor llywio**

### **Wise Cymru**

Mae Wise Cymru yn gydweithrediad o sefydliadau o'r sector addysg sy'n: "Gweithio i greu diwylliant o bartneriaeth ystyrlon rhwng addysgwyr, undebau myfyrwyr a myfyrwyr ledled Cymru."

Credwn fod pob dysgwr yn haeddu barn ar y cyd â'u sefydliad addysg, ar y dysgu ac ar y profiad dysgu. Drwy hyn, gellir rhoi grym i fyfyrwyr i gynllunio eu profiadau addysgol eu hunain.

Mae Wise Cymru'n gweithio gyda holl brifysgolion Cymru, gan gynnig cyfleoedd ac adnoddau i ddatblygu ac ehangu eu gwaith partneriaeth myfyrwyr. Rydym yn gweithio gyda holl golegau addysg bellach Cymru hefyd, drwy roi cymorth iddynt ddatblygu eu strwythurau a gweithgareddau llais y dysgwr.

### **Y Pwyllgor Llywio**

Pwyllgor llywio Wise Cymru sy'n gyfrifol am fonitro a chynghori ar waith y prosiect gydol y flwyddyn. Mae'r aelodau'n 'ffrindiau beirniadol' ac maent yn derbyn diweddariadau gan dîm Wise Cymru, gan fonitro cynnydd yn erbyn amcanion; rhoi cyngor gan ddefnyddio eu gwybodaeth arbenigol; ac awgrymu meysydd ar gyfer gwella a datblygu yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae gan y pwyllgor llywio 9 aelod ac mae 5 o'r rheiny'n cynrychioli sefydliadau sy'n ariannu'r prosiect. Y sefydliadau hyn yw:

- CCAUC
- Holl sefydliadau addysg uwch Cymru
- Llywodraeth Cymru
- UCM Cymru (x2)

Mae'r 4 aelod arall yn cynrychioli sefydliadau sy'n gweithio'n agos gyda Wise Cymru. Y rhain yw:

- Yr ASA
- Colegau Cymru
- Estyn
- Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cynhelir cyfarfodydd bob 3 mis yn swyddfa UCM Cymru ym Mae Caerdydd. Cynhelir y cyfarfodydd yn ystod oriau gwaith (9-5), ac maent yn para am 2 awr fel arfer. Mae modd mynychu'r cyfarfodydd trwy gyfrwng fideo gynadledda, ond anogir yr aelodau i fynychu yn bersonol lle bo'n bosib.

### **Eich rôl fel Cadeirydd**

- 1) Cadeirio cyfarfodydd y pwyllgor llywio yn effeithiol.
- 2) Cwrdd â thîm Wise Cymru y tu allan i'r cyfarfodydd er mwyn cynllunio'r agenda a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd.
- 3) Chwarae rôl weithredol yng ngwaith y pwyllgor llywio.
- 4) Hyrwyddo Wise Cymru.

### **Sgiliau a nodweddion**

- 1) Ymrwymiad a brwdfrydedd dros waith Wise Cymru.
- 2) Profiad o gadeirio (yn ddelfrydol), neu o fod yn aelod o bwyllgor llywio neu bwyllgor tebyg.
- 3) Gallu meddwl yn strategol.
- 4) Gallu hybu trafodaethau ac annog pobl i ddod i benderfyniad.
- 5) Gallu ffurfio a mynegi barn annibynnol.
- 6) Gallu ffurfio cysylltiadau cadarnhaol a chynhyrchiol gyda chyd-aelodau o'r pwyllgor llywio, tîm staff Wise Cymru, a phartneriaid eraill.
- 7) Parodrwydd i hyrwyddo Wise Cymru
- 8) Gallu a'r parodrwydd i neilltuo'r amser a'r sylw sydd eu hangen ar gyfer y rôl.
- 9) Byddai cael dealltwriaeth o'r sectorau addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru yn ddelfrydol.

### **Ymgeisio**

Am ragor o wybodaeth ac am gopiau o ddogfennau megis Adroddiad Blynyddol Wise Cymru 2015/16 a throsolwg o waith y prosiect yn 2016/17, cysylltwch â Jessica Rumble drwy ebostio: [jessica.rumble@nus-wales.org.uk](mailto:jessica.rumble@nus-wales.org.uk) neu ffonio 01625 413252.

Os oes gennych ddiddordeb, anfonwch CV a chlawrlythyr at [jessica.rumble@nus-wales.org.uk](mailto:jessica.rumble@nus-wales.org.uk) erbyn 6 Mawrth 2017. Byddwn yn gwahodd rhestr fer o ymgeiswyr am gyfweiliad anffurfiol gyda rhai aelodau o'r pwyllgor llywio.

Sylwch: Ni allwn ystyried ceisiadau gan y rheiny a gaiff eu cyflogi gan y sefydliadau sy'n ariannu Wise Cymru (ac eithrio'r sefydliadau addysg uwch).